TGAU

# CBAC TGAU
# Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 3: Caniateir Cyfrifiannell
Haen Sylfaenol
Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2026



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Papur cwestiynau | 1 |
| Cynllun marcio | 25 |
| Grid mapio | 33 |




© WJEC CBAC Ltd 2024

| Cyfenw | Rhif y ganolfan | Rhif yr ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enw(au) cyntaf | | 0 |

# TGAU

## 3320NC0-1

## Mathemateg a Rhifedd (Dwyradd)
## Uned 3: Caniateir cyfrifiannell
## Haen Sylfaenol

1 awr 45 munud

**DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL**

**Deunyddiau ychwanegol**

Bydd angen defnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Cewch chi ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen/tudalennau ychwanegol yng nghefn y llyfryn. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi'r rhif cywir ar bob cwestiwn.

Cymerwch π fel 3·14 neu defnyddiwch y botwm π ar eich cyfrifiannell.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn 2(a), bydd yr asesu'n ystyried ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb mathemategol yn ysgrifennu.


| At ddefnydd yr arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc uchaf** | **Marc a roddwyd** |
| **1.** | 2 | |
| **2.** | 8 | |
| **3.** | 2 | |
| **4.** | 3 | |
| **5.** | 9 | |
| **6.** | 3 | |
| **7.** | 2 | |
| **8.** | 4 | |
| **9.** | 6 | |
| **10.** | 2 | |
| **11.** | 4 | |
| **12.** | 5 | |
| **13.** | 3 | |
| **14.** | 4 | |
| **15.** | 6 | |
| **16.** | 5 | |
| **17.** | 3 | |
| **18.** | 4 | |
| **Cyfanswm** | **75** | |



© WJEC CBAC Ltd 2024


## Rhestr Fformiwlâu – Uned 3 Haen Sylfaenol

**Arwynebedd trapesiwm =** $\frac{1}{2}(a+b)h$




**Cyfaint Gwrthrych gyda Thrawstoriad Unffurf**
**(e.e. Prism, Silindr)**

Cyfaint = arwynebedd y trawstoriad × hyd







© WJEC CBAC Ltd 2024

Atebwch **bob** cwestiwn.

Arholwr yn unig

**1.** (a) Cafodd geiriau anthem genedlaethol Cymru, Hen Wlad fy Nhadau, eu hysgrifennu gan Evan James ym mis Ionawr 1856. [1]
Ym mis Ionawr 2024, mae Mathew yn canu'r anthem mewn cystadleuaeth yn yr ysgol.

Sawl blwyddyn ar ôl i Evan James ysgrifennu'r geiriau roedd Mathew yn canu yn y gystadleuaeth?

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(b) Mae Kris wedi rhoi'r ateb cywir i bedwar o'r pum cyfrifiad isod. [1]
Rhowch gylch o amgylch y cyfrifiad **anghywir**.

$54 + 9876 = 9930$ $123 \times 87 = 10701$ $1225 \div 35 = 35$

$246 \times 35 = 8650$ $12345 - 6789 = 5556$

……………………………………………………………………………………………


……………………………………………………………………………………………



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**2.** Mae'r siâp isod, sydd wedi'i luniadu ar grid sgwâr, yn cynrychioli'r lawnt yng ngardd Amy. [3 + 2 TCY]




(a) *Yn y rhan hon o'r cwestiwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb yn ysgrifennu.*

Mae pob sgwâr ar y grid yn cynrychioli arwynebedd o 2.25 $m^2$.
Amcangyfrifwch arwynebedd lawnt Amy.

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………



© WJEC CBAC Ltd 2024

(b) Mae Amy eisiau gwella ei lawnt drwy hau hadau gwair newydd. [3]
Mae hadau gwair i orchuddio (*cover*) 1 $m^2$ yn costio 94c.

Cyfrifwch gyfanswm cost yr hadau sydd eu hangen ar Amy.
Rhowch eich ateb mewn **punnoedd** (£), yn gywir i'r geiniog agosaf.

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

Cyfanswm cost yr hadau gwair = £………………………………..


Arholwr yn unig




© WJEC CBAC Ltd 2024

**3.** [2]

Arholwr
yn unig




Pa **ddau** o'r siapiau canlynol sy'n gyfath â siâp A?




Y siapiau sy'n gyfath â siâp A yw:

……………….. a ………………..



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**4.** Mae Clara yn gwneud brechdanau caws, brechdanau ham a brechdanau tiwna i'w gwerthu yn ei siop.

Mae hi'n gwneud cyfanswm o 180 o frechdanau.

Defnyddiwch y wybodaeth ganlynol i gwblhau'r tabl isod.

- mae hi'n gwneud 124 o frechdanau gan ddefnyddio bara brown
- mae 85 brechdan yn cynnwys caws
- mae hi'n gwneud 18 o frechdanau tiwna gan ddefnyddio bara gwyn
- mae hi'n gwneud 28 o'r 40 brechdan ham gan ddefnyddio bara brown.

| | **Caws** | **Ham** | **Tiwna** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **Bara gwyn** | | | | |
| **Bara brown** | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | **180** |

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………………… [3]



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**5.** Mae'r 32 disgybl mewn dosbarth Blwyddyn 11 yn cofnodi eu prif ddull o deithio i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw.


Yr opsiynau maen nhw'n eu cofnodi yw Cerdded, Beicio, Bws, Trên, Car, Arall.

(a) Mae rhai o'r canlyniadau i'w gweld yn y siart bar isod. [2]

O'r 32 disgybl yn y dosbarth:

- mae 12 disgybl yn cofnodi naill ai Bws neu Trên
- yr opsiwn **moddol** yw Bws.

Cwblhewch y siart bar drwy luniadu'r ddau far coll.




..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(b) Mae saith o'r disgyblion oedd wedi cerdded yn cofnodi eu pellterau o'r cartref i'r ysgol ar y diwrnod hwnnw.

Mae'r pellterau, wedi'u mesur mewn km, i'w gweld isod.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2.1** | **1.7** | **0.9** | **1.4** | **2.1** | **2.8** | **0.2** |

(i) Darganfyddwch ganolrif y pellterau hyn. [2]

………..........................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

..................................................................................................................

Canolrif = ……………….. km

(ii) Darganfyddwch amrediad y pellterau hyn. [1]

………..........................................................................................................

..................................................................................................................

Amrediad = ……………….. km

(iii) Darganfyddwch gymedr y pellterau hyn. [3]

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo.

………..........................................................................................................

..................................................................................................................

………..........................................................................................................

..................................................................................................................

………..........................................................................................................

..................................................................................................................

Cymedr = ……………….. km



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(iv) Mae wythfed disgybl sy'n cerdded yn dweud ei bod hi'n cerdded 0.4 km i'r ysgol bob dydd. [1]

Beth fydd yn digwydd i'r pellter cymedrig rydych chi wedi'i gyfrifo yn rhan (iii) yw'n cynnwys pob un o'r wyth disgybl?

Ticiwch y blwch cywir.

| | |
|---|---|
| Bydd y cymedr yn cynyddu | |
| Bydd y cymedr yn aros yr un fath | |
| Bydd y cymedr yn lleihau | |

Rhaid i chi esbonio eich dewis.


………..........................................................................................................

..................................................................................................................

**6.** Gan ddefnyddio pren mesur ac onglydd, cwblhewch luniad manwl gywir o'r triongl *FGH,* lle: [3]

- $GH = 8\,\text{cm}$
- $F\hat{G}H = 60°$
- $F\hat{H}G = 36°$

Mae'r ochr *GH* wedi cael ei lluniadu i chi.






© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**7.** Mae Sam yn meddwl am rif. [2]

$\frac{1}{3}$ o'i rif yw 477.

Beth yw rhif Sam?

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

**8.** (a) (i) Mae blwch yn cynnwys $a$ afal.
Ysgrifennwch, yn nhermau $a$, nifer yr afalau mewn 8 blwch. [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

(ii) Mae Yang yn $b$ oed. Mae Catrin 7 mlynedd yn iau na Yang.
Ysgrifennwch oed Catrin, yn nhermau $b$. [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

(b) (i) Datryswch $x - 7 = 38$ [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

(ii) Datryswch $\frac{y}{4} = -17$ [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................




© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**9.** Cwmni sy'n cyflenwi trydan yw Gwalia Electric.

(a) Y llynedd, dangosodd Gwalia Electric y wybodaeth ganlynol mewn siart cylch. [3]




Mae'r siart cylch yn cynrychioli cyfanswm o £2340 miliwn.

Faint o arian wnaeth Gwalia Electric ei wario ar fentrau gwyrdd y llynedd?
Rhowch eich ateb mewn miliynau o bunnoedd.

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

Arian gafodd ei wario ar fentrau gwyrdd = £ ...................... miliwn



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(b) Y llynedd, roedd gan Gwalia Electric 1.08 miliwn o gwsmeriaid. [1]
Y flwyddyn cyn hynny, roedd gan Gwalia Electric 800 000 o gwsmeriaid.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y niferoedd hyn o gwsmeriaid?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb.

1 880 000   280 000   692 000   2 800 000   728 920

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

(c) Mewn hysbyseb, mae Gwalia Electric yn honni bod bil blynyddol cyfartalog cartrefi wedi gostwng 9% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. [2]
Mae'r hysbyseb yn dangos y canlynol.




Ydy'r gostyngiad 9% yn gywir ar gyfer y rhifau sydd i'w gweld?
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo i ategu eich ateb.

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………



© WJEC CBAC Ltd 2024

**10.** Cyfrifwch y canlynol, gan roi eich ateb yn gywir i 2 le degol. [2]

Arholwr yn unig

$$\frac{25 - 3.7^2}{\sqrt{21}}$$


……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

**11.** Mae diod lemon yn cael ei gwneud drwy ychwanegu dŵr at gordial lemon.



(a) Mae jwg mesur yn cynnwys 170 ml o gordial lemon. [2]
Mae 1.36 litr o ddŵr yn cael ei ychwanegu i wneud y ddiod lemon.

Beth yw cyfaint y ddiod lemon yn y jwg?
Rhowch eich ateb mewn mililitrau.

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………

Cyfaint y ddiod lemon yn y jwg yw …………………. ml



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(b) Mae cwpan yn dal 175 ml o ddiod lemon pan mae'n llawn.

Faint o gwpanau sy'n gallu cael eu llenwi'n llawn gan ddefnyddio'r ddiod lemon o'r jwg?

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………… [2]



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**12.** Mewn cwis, mae 60 o gwestiynau.
Mae cystadleuydd yn sgorio
+ 6 phwynt am bob ateb cywir,
– 3 phwynt am bob ateb anghywir,
– 2 bwynt am bob cwestiwn heb ei ateb.

Mae Elena a Faizal yn ddau gystadleuydd yn y cwis.

(a) Mae Elena yn ateb 32 cwestiwn yn gywir, yn ateb 16 cwestiwn yn anghywir ac nid yw'n ateb 12 cwestiwn. [2]

Beth yw ei sgôr derfynol?

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

(b) Ar ôl 59 cwestiwn, sgôr Faizal oedd 345 pwynt. [3]
Ar ôl 60 cwestiwn, sgôr Faizal oedd 343 pwynt.

Esboniwch, gan ddangos eich cyfrifiadau, sut gallai Faizal fod wedi ateb y 60 cwestiwn.

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024

**13.** Mae map o Gymru a rhan o Weriniaeth Iwerddon i'w weld isod. [3]

Arholwr yn unig




Mae pentref Courtown yng Ngweriniaeth Iwerddon ar gyfeiriant:

- 260° o Bwllheli a
- 310° o Abergwaun.

Marciwch leoliad Courtown ar y map â chroes, X.





© WJEC CBAC Ltd 2024

**14.** Mae Mali yn gweithio mewn canolfan alwadau.

Mae'r diagram amlder isod yn dangos yr amser mae'n ei gymryd i Mali ateb pob galwad gafodd hi ddydd Mawrth.

Ddydd Mawrth, atebodd hi'r holl alwadau o fewn 60 eiliad.




Meddai Mali,
'Fe wnes i ateb 80% o'r galwadau ges i ddydd Mawrth o fewn 30 eiliad neu lai.'

Ydy Mali'n gywir?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

[4]

Rhaid i chi ddangos gwaith cyfrifo i ategu eich ateb.

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................

..............................................................................................................................




© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**15.** Mae 15 chwaraewr mewn tîm rygbi.
Fe wnaeth tîm rygbi Cymru chwarae yn erbyn tîm rygbi Iwerddon ym mis Chwefror 2024.

Mae'r diagram gwasgariad isod yn dangos taldra a màs pob un o'r 15 chwaraewr o Gymru ddechreuodd y gêm yn erbyn Iwerddon.




(a) Mae gan ddau o'r chwaraewyr, sydd â màs sy'n fwy na 90 kg, yr un màs. [2]

Darganfyddwch y gwahaniaeth rhwng taldra'r ddau chwaraewr hyn.
Rhowch eich ateb mewn centimetrau.

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

(b) Mae Siôn yn credu bod y diagram gwasgariad yn dangos bod cydberthyniad positif rhwng taldra a màs yr 15 chwaraewr o Gymru.

(i) Esboniwch beth mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun y diagram gwasgariad. [1]

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

(ii) Mae ffrind Siôn, Harri, yn edrych ar y diagram gwasgariad ac yn dweud;

'Dydy taldra a màs un chwaraewr ddim yn dilyn yr un patrwm â gweddill y chwaraewyr'.

Ysgrifennwch daldra a màs y chwaraewr hwn. [1]

Taldra = ……………………m Màs = ……………………kg

(c) Tynnwch linell ffit orau ar y diagram gwasgariad. [1]

(ch) Esboniwch pam gallai hi fod yn amhriodol defnyddio eich llinell ffit orau i amcangyfrif taldra chwaraewr rygbi â màs 125 kg. [1]

..........................................................................................................................


..........................................................................................................................



© WJEC CBAC Ltd 2024

**16.** Arwynebedd y triongl *PQR*, sydd i'w weld yn y diagram isod, yw 36 cm$^2$. [5]

Arholwr yn unig




*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*

Cyfrifwch hyd *PR*.

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................




© WJEC CBAC Ltd 2024

**17.** Mae'r diagram wrth raddfa isod yn dangos uwcholwg ar ardd Gruff. Mae'n defnyddio'r raddfa **1 cm yn cynrychioli 1 metr.** [3]


Arholwr yn unig

Mae tŷ Gruff ar hyd yr ochr BC.
Mae perth (*hedge*) ar hyd AB.
Mae ffens ar hyd CD.

Mae Gruff eisiau plannu coeden yn yr ardd.

Rhaid i'r goeden fod
- yn agosach at y ffens na'r tŷ
- llai na 7 metr o'r gornel *A*.

Tynnwch linellau addas ar y diagram a thywyllwch y rhanbarth lle byddai'n bosibl plannu'r goeden.







© WJEC CBAC Ltd 2024

Arholwr yn unig

**18.** Mae gan silindr metel solet radiws 2.3 cm ac uchder 5 cm. [4]




*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*

Màs y silindr yw 423.1 g.
Darganfyddwch ddwysedd y metel.
Rhowch eich ateb mewn g/cm$^3$.

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

**DIWEDD Y CWESTIYNAU**



© WJEC CBAC Ltd 2024

| Rhif y cwestiwn | **Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen.<br>Ysgrifennwch rifau'r cwestiwn/cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen.** |
|---|---|
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Ltd 2024

## Cynllun Marcio

| **TGAU Mathemateg a Rhifedd**<br>**Uned 3 DAE Haen Sylfaenol** | Marc | Sylwadau |
|---|---|---|
| 1.(a) (2024 – 1856 =) 168 (blwyddyn) | B1 | |
| 1.(b)<br>246 × 35 = 8650 | B1 | |
| 2. (a) Tystiolaeth o gyfrif sgwariau<br>(Nifer y sgwariau =) 33<br>(Cyfanswm yr arwynebedd = 33 × 2.25 =) 74(.25) | M1<br>A1<br>B1 | <br>Caniatewch 31 i 35 sgwâr.<br>Caniatewch 69.75 i 78.75 ($m^2$).<br>DT *(FT)* 2.25 × 'eu harwynebedd'. |
| Trefnu a Chyfathrebu.<br><br><br><br><br><br><br><br>Cywirdeb ysgrifennu. | TC1<br><br><br><br><br><br><br><br>Y1 | Am TC1, bydd disgwyl i ymgeiswyr wneud y canlynol:<br>• gyflwyno eu hateb mewn ffordd strwythuredig<br>• esbonio i'r darllenydd yr hyn maen nhw'n ei wneud ym mhob cam o'u hateb<br>• gosod eu hesboniad a'u gwaith cyfrifo mewn ffordd glir a rhesymegol<br>• ysgrifennu casgliad sy'n dwyn ynghyd eu canlyniadau ac sy'n esbonio ystyr eu hateb<br><br>Am Y1, bydd disgwyl i ymgeiswyr wneud y canlynol:<br>• ddangos eu holl waith cyfrifo<br>• defnyddio ffurf fathemategol gywir yn eu gwaith cyfrifo<br>• defnyddio terminoleg briodol, unedau priodol ac ati |
| (b) 74.25 × 0.94 neu 74.25 × 94<br><br><br><br><br><br><br><br>(£) 69.80 | M1<br><br><br><br><br><br><br><br>A2 | DT *(FT)* 'eu harwynebedd' × 0.94 neu 'eu harwynebedd' × 94.<br>Caniatewch ddefnyddio 'eu harwynebedd' wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf neu wedi'i dalgrynnu i 1 lle degol.<br>I gyfeirio:<br>• 69.75 × 0.94 = 65.56(5)<br>• 78.75 × 0.94 = 74.02(5)<br><br>Rhowch A1 am un o'r canlynol:<br>• ateb cywerth mewn ceiniogau (yn gywir i'r geiniog agosaf)<br>• ateb wedi'i roi yn gywir mewn punnoedd, ond heb ei dalgrynnu'n gywir e.e. £69.79 neu £70. |
| 3. C (a) G | B2 | B1 am o leiaf un ateb cywir a dim mwy nag un ateb anghywir. |



© WJEC CBAC Ltd 2024

<table>
<tr><td>4. Tabl wedi'i gwblhau:<br>
<table>
<tr><th></th><th>Caws</th><th>Ham</th><th>Tiwna</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Bara gwyn</td><td>26</td><td>12</td><td>18</td><td>56</td></tr>
<tr><td>Bara brown</td><td>59</td><td>28</td><td>37</td><td>124</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>85</td><td>40</td><td>55</td><td>(180)</td></tr>
</table>
<table>
<tr><th></th><th>Caws</th><th>Ham</th><th>Tiwna</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Bara gwyn</td><td></td><td></td><td>18</td><td></td></tr>
<tr><td>Bara brown</td><td></td><td>28</td><td></td><td>124</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>85</td><td>40</td><td></td><td>(180)</td></tr>
</table>
<table>
<tr><th></th><th>Caws</th><th>Ham</th><th>Tiwna</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Bara gwyn</td><td></td><td>a</td><td>18</td><td>b</td></tr>
<tr><td>Bara brown</td><td></td><td>28</td><td></td><td>124</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>85</td><td>40</td><td>C</td><td>(180)</td></tr>
</table></td>
<td>B3</td>
<td>Tabl hollol gywir.<br><br>B2 am unrhyw 7 cofnod cywir (neu fwy).<br><br>B1 am 4 neu 5 o'r cofnodion mewn print trwm.<br><br>Os rhoddwyd B1 gydag un gwall, caniatewch yr atebion DT (FT) canlynol am ail B1 (gan roi cyfanswm o B2 am 7 neu 8 cofnod sy'n cynnwys un gwall):<br>• a = 'eu 40' – 'eu 28'<br>• b = 180 – 'eu 124'<br>• c = 180 – 'eu 85' – 'eu 40'</td></tr>
<tr><td>5.(a) Barrau wedi'u lluniadu'n gywir.<br>Amlderau 11 ar gyfer Bws ac 1 ar gyfer Trên.</td><td>B2</td><td>Am B2, rhaid i farrau fod â lled o ddau sgwâr.<br>Caniatewch fylchau anghyson rhwng barrau.<br>B1 am un o'r canlynol:<br>• unrhyw arwydd o 11 ar gyfer Bws ac 1 ar gyfer Trên<br>• unrhyw arwydd o 12 ar gyfer Bws a 0 ar gyfer Trên</td></tr>
<tr><td>5.(b)(i) 0.2 0.9 1.4 1.7 2.1 2.1 2.8<br>(Canolrif =) 1.7 (km)</td><td>M1<br>A1</td><td>Am drefnu'r 7 rhif yn eu trefn.<br>ACU (CAO)<br>M1 A1 am 1.7 heb ei ategu</td></tr>
<tr><td>5.(b)(ii) (Amrediad =) 2.6 (km)</td><td>B1</td><td>B0 am 2.8 – 0.2 neu 0.2 – 2.8</td></tr>
<tr><td>5.(b)(iii) 2.1 + 1.7 + 0.9 + 1.4 + 2.1 + 2.8 + 0.2<br>(= 11.2)<br>÷ 7<br>(Cymedr =)1.6 (km)</td><td>M1<br><br>m1<br>A1</td><td>Cynnig ar adio <u>pob un</u> o'r 7 rhif.<br><br>DT (FT) 'eu cyfanswm'<br>ACU (CAO)</td></tr>
<tr><td>5.(b)(iv) Nodi 'Bydd y cymedr yn lleihau'<br>A<br>Rheswm dilys, e.e.<br>mae 0.4 yn llai na'r cymedr 1.6;<br>mae'r aelod newydd yn iau na'r oedran cymedrig.</td><td>E1</td><td>DT (FT) 'eu cymedr deilliadol' yn rhan (b)(iii), os yw o leiaf M1 wedi'i roi.<br><br>Caniatewch E1 am reswm neu esboniad dilys (e.e. cyfrifo'r cymedr newydd fel 11.6/8 = 1.45) heb fod wedi rhoi casgliad yn eu tabl nac yn eu hesboniad.<br>E0 am 'oherwydd rydych chi'n rhannu â rhif mwy (8)'.</td></tr>
</table>



© WJEC CBAC Ltd 2024

| | | |
|---|---|---|
| 6. Ongl FGH<br>Ongl FHG<br>Triongl wedi'i gwblhau | B1<br>B1<br>B1 | Caniatewch ±2°<br>Caniatewch ±2°<br>Dim ond os oes o leiaf un ongl yn gywir.<br><br>Rhowch B1 B1 B0 am un o'r canlynol:<br>• adlewyrchiad o'r triongl cywir cyflawn<br>• lluniadu triongl cywir cyflawn heb ddefnyddio pren mesur |
| 7. 477 × 3<br>(Rhif Sam yw) 1431 | M1<br>A1 | |
| 8.(a)(i) $8a$ | B1 | |
| 8.(a)(ii) $b - 7$ | B1 | |
| 8.(b)(i) 45 ( | B1 | Derbyniwch ateb wedi'i fewnblannu. |
| 8.(b)(ii) – 68 | B1 | Derbyniwch ateb wedi'i fewnblannu. |
| 9.(a) Ongl 40° (neu 11.1…%)<br><br>2340 (miliwn) × 40 ÷ 360 neu gywerth<br>(neu 2340 (miliwn) × 11.1… ÷ 100)<br><br><br><br><br>(£) 260 (miliwn) | B1<br><br>M1<br><br><br><br><br><br><br>A1 | Caniatewch oddefiant ±2° (neu ±0.55…%)<br><br>DT *(FT)* am M1 dim ond os yw'r ongl y tu hwnt i'r goddefiant ond o fewn ±4° (neu gywerth gan weithio â chanran ±1.11…%).<br>Gall M1 ymhlygu B1.<br>Caniatewch wall gwerth lle oherwydd camddehongli 'miliwn' h.y. 2340(0….) × 40 ÷ 360.<br><br>Marciwch yr ateb terfynol.<br>Caniatewch A1 am (£) 260 000 000 yn y man ateb. |
| 9.(b) 280 000 | B1 | |
| 9.(c) Unrhyw un o blith:<br>• $\frac{2400 - 2184}{2400}$ (× 100 = 9%)<br>• 0.09 × 2400 (= 216)<br>• 0.91 × 2400 (= 2184)<br>• 100 × 2184 ÷ [100 – 9] (= 2400)<br>• 2184 ÷ 2400 (× 100) (= 0.91 neu 91%)<br><br>Nodi neu ymhlygu 'Ydy' AC unrhyw un o'r canlynol:<br>• ( $\frac{2400 - 2184}{2400}$ × 100 =) 9%<br>• (2400 – 216 =) 2184<br>NEU (2184 + 216 =) 2400<br>• (0.91 × 2400 =) 2184<br>• (100 × 2184 ÷ [100 – 9] =) 2400<br>• (100% – 91% =) 9% | M1<br><br><br><br><br><br><br>A1 | <br><br><br><br><br><br><br>Mae enrhifiad cywir yn ymhlygu 'Ydy'.<br><br>Parwch y pwyntiau bwled cyfatebol ar gyfer y marciau 'A' ac 'M'. |
| 10. 2.47 | B2 | B1 am 2.46(8044339…).<br>Rhaid i bob lle a roddir fod wedi'i <u>dalgrynnu neu ei flaendorri</u> yn gywir. |



© WJEC CBAC Ltd 2024

| | | |
|---|---|---|
| 11.(a) 1530 (ml) | B2 | Rhowch B1 am weld unrhyw un o'r canlynol:<br>• 1360 (+ 170)<br>• 0.17 + 1.36 (× 1000) |
| 11.(b) $\frac{1530}{175}$ (= 8.74….)<br><br>8 cwpan llawn | M1<br><br>A1 | DT *(FT)* 'eu cyfaint' ar gyfer rhan (a),<br><br>DT *(FT)* os oes angen penderfyniad cywerth (i dalgrynnu i lawr).<br>Rhaid i'r swm sy'n weddill, os yw wedi'i roi, fod yn gywir am A1<br>e.e.<br>M1 A0 am 8.74 heb ddim gwaith cyfrifo;<br>M1 A1 am 8 cwpan gyda 130 ml dros ben. |
| 12.(a) 32×6 – 16×3 – 12×2 (= 192 – 48 – 24)<br><br>120 | M1<br><br>A1 | <br><br>Rhowch M1 A1 am 120 heb ei ategu. |
| 12.(b) Strategaeth i archwilio cyfuniadau posibl.<br><br>58 × 6 = 348 a 348 – 3 = 345<br>Roedd yna 58 ateb cywir (ac un ateb anghywir)<br><br>Dydy'r cwestiwn olaf heb gael ei ateb (gan fod y marc wedi gostwng o 345 i 343). | S1<br><br>B1<br><br><br>B1 | Rhowch S1 am dystiolaeth o gynnig a gwella neu ateb cywir.<br><br>Mae'r B1 hwn yn ymhlygu S1.<br><br><br>Gall fod wedi'i ymhlygu. |
| 13.<br><br>Safle 260° o Bwllheli<br>Safle 310° o Abergwaun<br>Marcio'r safle neu ddwy linell yn croestorri | <br><br>M1<br>M1<br>A1 | Caniatewch ddotiau neu groesau neu unrhyw arwydd diamwys bod y cyfeiriannau cywir wedi'u lluniadu.<br><br>DT *(FT)* os rhoddwyd o leiaf M1 eisoes a bod dwy linell yn croestorri.<br>(Rhaid i'r llinellau darddu o P ac F). |




© WJEC CBAC Ltd 2024

| | | |
|---|---|---|
| 14.<br>Gweld 190<br>(Cyfanswm nifer y galwadau =<br>22 + 48 + 62 + 34 + 14 + 10)<br><br>Gweld unrhyw un o'r canlynol:<br>• (80% o 190 =) 152 (galwad)<br>**A**<br>(llai na 30 eiliad =) 132 (galwad)<br><br>• (20% o 190 =) 38 (galwad)<br>**A**<br>(mwy na 30 eiliad =) 58 (galwad)<br><br>• (132 galwad = $\frac{132}{190} \times 100 = 69.4(7..)\%$<br>• (58 galwad = $\frac{58}{190} \times 100 = 30.5(2..)\%$<br><br>Casgliad 'Nac ydy'. | <br>B1<br><br><br><br>M2<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>A1 | Gwiriwch y graff am atebion.<br><br><br><br><br>DT *(FT)* 'eu 190'.<br>M1 am weld unrhyw un o'r canlynol:<br>• (80% o 190 =) 152 (galwad)<br>**NEU**<br>(llai na 30 eiliad =) 132 (galwad)<br><br>• (20% o 190 =) 38 (galwad)<br>**NEU**<br>(mwy na 30 eiliad =) 58 (galwad)<br><br><br><br><br>DT *(FT)* os yw'r casgliad yn dod o waith cyfrifo cywir yn unig a bod M2 eisoes wedi'i roi. |
| 15.(a) 13 (cm) | B2 | Rhowch B1 am un o'r canlynol:<br>• gweld 2.01 ac 1.88<br>• gweld 201 a 188<br>• gweld 0.13 (m)<br>• 2.01 – 'eu 1.88' wedi'i drawsnewid yn gywir yn cm (× 100)<br>• 'eu 2.01' – 1.88 wedi'i drawsnewid yn gywir yn cm (× 100)<br>• 'eu 2.01' – 'eu 1.88' wedi'i drawsnewid yn gywir yn cm (× 100)<br>• 'eu 2.01' AC 'eu 1.88' wedi'u trawsnewid yn gywir yn cm (× 100)<br>• 10 cm (o 1.85 – 1.75). |
| 15.(b)(i)<br>Esboniad sy'n cyfeirio at fàs a thaldra yn cynyddu neu'n lleihau gyda'i gilydd e.e.<br>"mae'r chwaraewyr trymach yn dalach"<br>"wrth i'r màs leihau mae'r taldra hefyd"<br>"mae'r ddau'n cynyddu" | E1 | |
| 15.(b)(ii) (Taldra =) 1.78 (m) A (Màs =) 119 (kg) | B1 | |
| 15.(c)<br>Llinell syth ffit orau, sy'n dilyn y duedd â rhai pwyntiau uwchben a rhai o dan y llinell. | B1 | Caniatewch fwriad llinell syth. |
| 15.(ch)<br>Esboniad pam nad yw'n amcangyfrif priodol, e.e.<br>"dim ond tuedd chwaraewyr hyd at 122(kg) mae'r diagram yn ei hystyried"<br>"allan o'r amrediad" | E1 | Caniatewch "mae taldra'r pedwar chwaraewr sydd tua 120 kg yn wahanol iawn felly dydy defnyddio'r llinell yn y rhanbarth hwn ddim yn briodol”. |



© WJEC CBAC Ltd 2024

| | | |
|---|---|---|
| 16.<br>($QR$ = ) $\frac{2\times36}{8}$ neu gywerth<br><br>= 9 (cm)<br><br>($PR^2$ = ) $8^2 + 9^2$ neu gywerth<br><br>$PR^2 = 145$ neu ($PR$ =) $\sqrt{145}$<br><br>($x$ =) 12(·041...cm) | M1<br><br>A1<br><br>M1<br><br>A1<br><br>A1 | Gwiriwch y diagram am atebion.<br>Rhowch M1 am $\frac{8\times QR}{2} = 36$.<br><br>Gall fod wedi'i ymhlygu mewn gwaith cyfrifo diweddarach (M1A1).<br><br>Sylwch: ($PR^2$ =) 64 + 81.<br>DT *(FT)* 'eu 9 deilliadol'.<br><br>Mae'r ateb terfynol $x = 145$ yn M1A0A0.<br>DT *(FT)* os yw eu hateb > 'eu 9' ac > 8.<br><br>DT *(FT)* o M1 am ail isradd 'eu 145' wedi'i enrhifo'n gywir os yw eu hateb > 9.<br><br>*<u>Dull arall o ddarganfod x</u>*<br>*Dull cywir a chyflawn (gan ddefnyddio perthnasoedd trigonometrig)* *M2*<br>*($x$ =)* 12(·041...cm) *A1* |
| 17.<br><br>Hanerydd ongl diamwys BCD ± 2°<br><br>Arc canol A â radiws 7cm ± 2mm<br><br>Rhanbarth cywir wedi'i nodi<br><br> | <br><br>B1<br><br>B1<br><br>B1 | Rhaid i bob llinell ac arc fod yn ddigon hir i allu dewis y rhanbarth cywir.<br><br>Gall unrhyw ddull dilys gael ei ddefnyddio i haneru'r ongl e.e. defnyddio onglydd neu bâr o gwmpawdau.<br><br><br>DT *(FT)* os yw B1 wedi'i roi am yr arc. |
| 18.<br>(Cyfaint y silindr =) $\pi \times 2.3^2 \times 5$<br><br>= 83(.095….) neu $26.45\pi$ ($cm^3$)<br><br>(Dwysedd y metel =) 423.1 ÷ 83(.095….)<br><br>Derbyniwch ateb rhwng 5 a 5.1 ($g/cm^3$) | M1<br><br>A1<br><br>M1<br><br>A1 | Gall gael ei weld neu ei ymhlygu mewn gwaith cyfrifo diweddarach.<br><br>Derbyniwch ateb rhwng 83 ac 83.11 gan gynnwys y rhain.<br><br>DT *(FT)* 423.1 ÷ 'eu cyfaint deilliadol y silindr', os yw π wedi'i ddefnyddio i'w gyfrifo. |



© WJEC CBAC Ltd 2024

| | | |
|---|---|---|
| *18.* ***Dull arall:*** <br><br> *(Dwysedd y metel =)* $\dfrac{423.1}{\pi \times 2.3^2 \times 5}$ <br><br> *Derbyniwch ateb rhwng 5 a 5.1 (g/cm³)* | *M2* <br><br> *A2* | *Rhowch M1 am weld* $\pi \times 2.3^2 \times 5$. <br><br> A1 am weld $\frac{423.1}{26.45\pi}$ neu $\frac{8462}{529\pi}$ neu $\frac{15.9(96...)}{\pi}$ neu unrhyw ffracsiwn arall wedi'i symleiddio gydag **un** cam ar ôl i'w gymryd. |



© WJEC CBAC Ltd 2024

# Sut i ddarllen y cynllun marcio

- Mae marciau ‘M' yn cael eu dyfarnu am ddefnyddio unrhyw ddull cywir mewn gwaith cyfrifo priodol, hyd yn oed os oes efallai gwall rhifiadol.  Ar ôl eu hennill, ni ellir eu colli.
- Mae marciau 'm' yn farciau dull dibynnol. Dim ond os enillwyd y marc ‘M’ perthnasol blaenorol y rhoddir y rhain.
- Mae marciau ‘A' yn cael eu dyfarnu am gam sy'n rhifiadol gywir, am ateb cywir neu am ateb sydd o fewn amrediad wedi'i bennu.  Dim ond os enillwyd y marc M/m perthnasol naill ai’n benodol neu drwy gasgliad o’r ateb cywir y rhoddir y rhain.
- Mae marciau 'B' yn annibynnol ar ddull ac fel rheol maent yn cael eu rhoi am ganlyniad neu osodiad manwl gywir.
- Mae marciau 'S' yn cael eu rhoi am strategaeth
- Mae marciau 'E' yn cael eu rhoi am esboniad
- Mae marciau 'U' yn cael eu rhoi am unedau
- Mae marciau 'P' yn cael eu rhoi am blotio pwyntiau
- Mae marciau 'C' yn cael eu rhoi am luniadu cromliniau
- Mae marciau 'TC' yn cael eu rhoi am 'drefnu a chyfathrebu', llinyn o TCY *(OCW)* (trefnu, cyfathrebu ac ysgrifennu'n gywir)
- Mae marciau 'Y' yn cael eu rhoi am 'ysgrifennu'n gywir', llinyn o TCY *(OCW)* (trefnu, cyfathrebu ac ysgrifennu'n gywir)
- Mae marciau 'SC' yn cael eu rhoi am achosion arbennig
- ACU *(CAO)*: ateb cywir yn unig
- AGD *(ISW)*: anwybyddu gweithio dilynol
- DT (*FT*): dilyn trwodd



© WJEC CBAC Ltd 2024

# Mapio'r asesiad

| Cw. | Testun | Marc uchaf | AA1 | AA2 | AA3 | Cw Cyffredin (HU) | Marciau cyffredin (HU) | TCY *(OCW)* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Blwyddyn yr anthem genedlaethol; cyfrifiadau | 2 | 2 | | | | | |
| 2 | Arwynebedd lawnt; cost hadau gwair | 8 | 3 | 5 | | | | * |
| 3 | Adnabod siapiau cyfath | 2 | 2 | | | | | |
| 4 | Tabl siop frechdanau | 3 | | | 3 | | | |
| 5 | Siart bar trafnidiaeth i'r ysgol: canolrif, amrediad, cymedr | 9 | 6 | 1 | 2 | | | |
| 6 | Lluniadu triongl manwl gywir | 3 | 3 | | | | | |
| 7 | Cyfrifiad gwrthdro | 2 | 2 | | | | | |
| 8 | Mynegiadau; hafaliadau llinol | 4 | 4 | | | | | |
| 9 | Siart cylch Gwalia Electric | 6 | 1 | 3 | 2 | | | |
| 10 | Cyfrifiad a thalgrynnu | 2 | 2 | | | | | |
| 11 | Jygiau o ddiod lemon (unedau metrig) | 4 | 2 | | 2 | | | |
| 12 | Sgorau cwis (rhifau cyfeiriol) | 5 | 2 | | 3 | | | |
| 13 | Plotio cyfeiriannau | 3 | 3 | | | Cw.2a | 3 | |
| 14 | Diagram amlder Mali | 4 | | 4 | | Cw.3 | 4 | |
| 15 | Diagram gwasgariad ac unedau | 6 | 4 | 1 | 1 | Cw.4abcch | 6 | |
| 16 | Pythagoras, arwynebedd a pherimedr triongl | 5 | | | 5 | Cw.5 | 5 | |
| 17 | Loci – gardd Gruff | 3 | | 3 | | Cw.6 | 3 | |
| 18 | Silindr a dwysedd | 4 | | 4 | | Cw.7 | 4 | |
| | **Cyfansymiau** | **75** | **36** | **21** | **18** | | **25** | |



© WJEC CBAC Ltd 2024